

Prifysgol Abertawe

Nodyn Arweiniad Rheoli Gwastraff
NARG13 Olew Coginio Gwastraff

Awdur:	Fiona Wheatley
Cymeradwywyd gan:	Fiona Abbott
Dyddiad Adolygu:	09/11/2018

Nodyn Arweiniol Rheoli Gwastraff NARG13 Olew Coginio Gwastraff	
Lleoliad Cynhyrchu	Ceginau a Mannau Gwerthu Bwyd
EWC	20-01-25
Math	Gwastraff a Reolir
Dull Gwaredu	Wedi'i ddioli ar gyfer ailgylchu
Math o Fin/Sach	Drwm metel â chorcyn

Gofynion Dyletswydd Gofal

Dylai unrhyw fusnes neu gorff cyhoeddus sy'n cynhyrchu deunyddiau gwastraff ddefnyddio'r hierarchaeth gwaredu gwastraff ar gyfer pob ffrwd er mwyn lleihau cyfanswm y gwastraff a anfonir i safleoedd gwaredu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu sicrhau bod pob math o wastraff yn cael ei ddioli ac y gwaredir arno drwy'r ffrwd gywir. Felly, ni ddylid anfon gwastraff i'r safle gwastraff dinesig oni bai nad oes unrhyw ddewis arall.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddioli ei gwastraff cyn gwaredu arno a chanolbwyntio ar ddioli'r ffrydiau ailgylchu allweddol: caniau, papur, plastig, bwyd a gwydr. Mae didoli deunyddiau cyn gwaredu arnynt yn gwella ansawdd y cynnyrch ailgylchu a hefyd mae'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwastraff (Lloegr a Chymru) 2011. Yn ôl y rheoliadau, rhaid casglu deunyddiau megis papur, metel, plastig a gwydr, ar wahân er mwyn sicrhau ansawdd uchel y deunydd wedi'i ailgylchu.

Gellir troi olew coginio gwastraff yn fathau gwahanol o fiodanwyddau y gellir eu defnyddio yn lle disel traddodiadol. Ni ddylid gwaredu ar olewau coginio gan ddefnyddwyr masnachol, megis arlwywyr, gyda'r ffrwd wastraff gyffredinol. Nid yw'r olewau gwastraff yn beryglus nac yn wastraff arbennig, ond mae'r Ddyletswydd Gofal yn berthnasol iddynt. Gellir casglu'r olewau gwastraff hyn gan gcontractwyr arbenigol a'u troi'n fiodanwyddau gan weithgynhyrchwyr.

Wrth storio olewau coginio gwastraff cyn gwaredu arnynt, rhaid dilyn yr [arweiniad ar gyfer Atal Llygredd 8: Dulliau diogel o storio a gwaredu ar olewau gwastraff](#)

Cyfarwyddiadau Gwaredu

Gellir rhoi olew coginio gwastraff yn ôl yn y cynwysyddion cyflenwi gwreiddiol, gan sicrhau bod y caead yn cael ei sgriwio'n dynn. Dylai'r cynwysyddion gael eu storio'n bell o ddraeniau agored ac o fewn hambwrdd gorlifo a dylid eu labelu'n glir fel olew gwastraff coginio. Dylai staff sy'n ymdrin ag olewau gael eu hyfforddi sut i ymateb i ollyngiadau a dylai fod offer ymateb i ollyngiadau gan leoliadau sy'n cynhyrchu symiau sylweddol. Dylid trefnu casgliadau rheolaidd gyda'r contractwr er mwyn osgoi cronni symiau mawr. Dylid gosod arwyddion amlwg ar leoliadau storio.

Dylai'r holl nodiadau trosglwyddo gwastraff gael eu cadw'n lleol gan y tîm sy'n gyfrifol am weithdrefnau gwastraff (fel arfer, y tîm Arlwygo yn y Gwasanaethau Masnachol). Rhaid cadw'r rhain am o leiaf dwy flynedd, yn unol â rheoliadau dyletswydd gofal.

Costau Gwaredu

Mae costau ynghlwm wrth waredu ar olew coginio gwastraff i'w ailgylchu. Mae'r Brifysgol wedi penodi Olleco i reoli ei holew coginio gwastraff

Am arweiniad pellach, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk

